

Cynllun Llesiant Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Gaerfyrddin 2018-2023 2il Adroddiad Blynyddol

Ebrill 2019 / Mai 2020



- 
- 01 Rhagair
 - 02 Cynllun Llesiant y BGC
 - 03 Strwythur y BGC
 - 04 Meysydd Cynnydd y BGC
 - 05 Prosiectau ychwanegol a ddatblygwyd gan y Grwpiau Gweithredu
 - 10 Gweithio Rhanbarthol
 - 11 Cysylltiadau â Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol Gorllewin Cymru
 - 13 Pum Ffordd o Weithio
 - 14 Meysydd i'w datblygu dros y flwyddyn sydd i ddod

Rhagair

Mae'n bleser gennyf gyflwyno ail adroddiad blynyddol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) Sir Gaerfyrddin ar ôl cyhoeddi ein Cynllun Llesiant ym mis Mai 2018. Mae'r 12 mis diwethaf wedi bod yn gyfnod arbennig o brysur ac mae nifer o brosiectau arloesol a chyffrous wedi cael eu cynnal o fewn y bartneriaeth, fel y gwelwch yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn. Fodd bynnag, ers mis Mawrth 2020, mae'r pandemig Coronafeirws wedi herio ein hymateb a'n gwynnwch mewn ffordd nad ydynt wedi'u herio o'r blaen, ac nid oes amheuaeth bod y cysylltiadau partneriaeth cryf a feithrinwyd dros y blynyddoedd drwy waith y BGC wedi galluogi ymateb traws-sector aruthrol i'r pandemig, gan gadw buddiannau preswylwyr Sir Gaerfyrddin yn rhan flaenllaw a chanolog o'n gwaith cynllunio. Yn sicr, mae wedi bod yn gyfnod heriol i bob un ohonom, ond fel partneriaid y BGC, rydym wedi bod yn rhannu'r hyn rydym wedi'i ddysgu, a byddwn yn parhau i ddysgu o'r profiad wrth ystyried y cyfleoedd i gydweithio yn y dyfodol.

Mae BGC Sir Gaerfyrddin yn dwyn ynghyd uwch gynrychiolwyr o wasanaethau cyhoeddus sy'n gweithio yn y sir i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol ein preswylwyr. Rydym yn gwneud hyn drwy gydweithio i ychwanegu gwerth at wasanaethau ein gilydd a datblygu dulliau arloesol o ddiwallu anghenion ein cymunedau. Mae ein Grwpiau Gweithredu yn gwneud gwaith ar y cyd i weithredu camau allweddol i gyflawni amcanion y Bwrdd, gan ystyried sut y gallwn wneud pethau'n wahanol ac adeiladu ar ymgysylltiad â chymunedau lleol.

Mae'n gyffrous gweld y syniadau a'r dulliau arloesol sy'n cael eu datblygu, yn lleol ac yn rhanbarthol. Rwy'n falch o ddweud ein bod yn dechrau gwneud cynnydd gwirioneddol yn Sir Gaerfyrddin ac rydym wedi llwyddo i gael cyllid i'n helpu i gyflawni hyd yn oed mwy, yn enwedig ym maes caffael bwyd lleol. Bydd yr adroddiad blynyddol hwn yn amlinellu llawer o'n cyflawniadau allweddol hyd yn hyn. Fodd bynnag, mae hefyd yn bwysig nodi bod yn rhaid i ni ystyried y sefyllfa y mae ein cymunedau bellach yn ei hwynebu, ac o ganlyniad byddwn yn ystyried



adolygu ac ail-ffocysu ein cynllun er mwyn sicrhau ein bod yn gallu ymateb yn llawn i effeithiau ac anghenion ein sir wrth symud ymlaen o'r pandemig Coronafeirws.

Hoffwn ddiolch i bawb sy'n rhan o hyn ac sy'n gweithio'n galed i gyflawni ein Cynllun Llesiant. Drwy weithio gyda'n gilydd, byddwn yn parhau i weld sut y gallwn wneud gwahaniaeth go iawn i bobl lleol.

Barry Liles, Cadeirydd y BGC a Dirprwy Is-ganghellor (Sgiliau a Dysgu Gydol Oes), Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant



Cynllun Llesiant y BGC

Mae'r Cynllun yn amlinellu sut y bydd partneriaid y BGC yn cydweithio i fynd i'r afael â rhai o'r materion allweddol sy'n effeithio ar lesiant dinasyddion a chymunedau'r Sir. Dyma'r partneriaid:



Mae'r Cynllun yn canolbwyntio ar gyflawni'r pedwar amcan llesiant a nodwyd yn sgil ymgysylltu helaeth â staff rheng flaen, preswylwyr a rhanddeiliaid allweddol eraill.



Arferion Iach - Mae gan bobl ansawdd bywyd da, ac maent yn gwneud dewisiadau iach ynglŷn â'u bywydau a'u hamgylchedd.



Ymyrraeth Gynnar ac Atal - Sicrhau bod pobl yn cael y cymorth iawn ar yr adeg iawn; pan fydd ei angen arnynt.



Cysylltiadau Cadarn - Pobl, lleoedd a sefydliadau y mae cysylltiad cryf rhyngddynt, sy'n gallu addasu i newid.




Pobl a Llefydd Llewyrchus - Uchafu'r cyfleoedd ar gyfer pobl a lleoedd mewn ardaloedd trefol a gwledig o'n sir.

Strwythur y BGC

Mae'r strwythur sydd ar waith wedi'i lunio i sicrhau bod y Cynllun Llesiant yn cael ei gyflawni'n effeithiol.

Mae hyn yn cynnwys cyfres o Grwpiau Gweithredu er mwyn gwneud cynnydd yn erbyn y camau tymor byr yn amcanion llesiant y BGC. Ceir Arweinydd Arbenigol, Is-gadeirydd a Swyddog Arweiniol ym mhob grŵp.



Mae'r Grwpiau Gweithredu wedi bod yn cyfarfod ers canol 2018 ac yn ystod y flwyddyn ddiwethaf maent wedi bod yn gwneud cynnydd da o ran eu cynllun prosiect i gyflawni yn erbyn y Cynllun Llesiant. Gweinyddir y Grwpiau Gweithredu hyn gan Dîm Cymorth BGC y Cyngor ac mae'r tîm hefyd yn gweithredu fel cyswllt rhwng y Grwpiau Gweithredu er mwyn nodi meysydd cydweithio posibl ac osgoi dyblygu.

Mae'r Bartneriaeth Cymunedau Mwy Diogel, sy'n hen grŵp statudol ac amlasiantaeth, yn parhau i fod yn atebol i'r BGC ac yn adrodd yn rheolaidd i'r Bwrdd. Mae'n cyfarfod bob chwarter ac mae'n cyd-fynd yn llwyr â dau grŵp arall yn y sir sy'n gysylltiedig â diogelwch cymunedol - Bwrdd CONTEST (gwrthderfysgaeth) a'r Bwrdd Troseddau Difrifol a Chyfundrefnol.

Mae gwybodaeth am waith y grwpiau hyn wedi'i chynnwys yn yr adroddiad hwn.

Bydd strwythur y BGC yn cael ei adolygu'n rheolaidd i sicrhau ei fod yn cefnogi gwaith y Bwrdd yn y modd gorau, gan gynnwys cyflawni cynnydd yn erbyn y Cynllun Llesiant.

Meysydd Cynnydd y BGC

Mae'r BGC wedi gwneud cynnydd mewn nifer o feysydd, yn ogystal â'r gwaith a wnaed gan y Grwpiau Gweithredu i gyflawni amcanion y BGC.



Mae rhagor o gydweithio parhaus yn cael ei wneud â'r saith Cyngor Tref a Chymuned yn Sir Gaerfyrddin sy'n destun Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae Tîm Cymorth y BGC wedi parhau i weithio gyda Chlercod a Swyddogion Datblygu y cyngorau hyn (Tref Llanelli, Llanelli Wledig, Pen-bre a Phorth Tywyn, Llanedi, Llan-non, Cwmaman a Chaerfyrddin) yn ystod y flwyddyn. Cafodd y BGC adroddiadau blynyddol cyntaf y saith cyngor ym mis Gorffennaf 2019. O dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, mae'n ofynnol i'r cyngorau adrodd ar y cynnydd a wnaed o ran cyflawni amcanion y Cynllun Llesiant Lleol. Mae trafodaethau rheolaidd gyda'r cyngorau lleol hyn wedi galluogi mwy o gydweithio mewn mentrau a arweinir yn lleol a fydd yn parhau yn y dyfodol. Gwahoddir cynrychiolwyr o'r cyngorau hyn i ddod i gyfarfodydd y BGC fel llais i'r sector cyngorau tref a chymuned.



Cyflwynwyd adroddiad y Cyngor Sir 'Symud Sir Gâr Wledig Ymlaen' i'r BGC ym mis Medi 2019 gyda'i argymhellion ynghylch adfywio cymunedau gwledig lleol. Sir Gaerfyrddin yw'r cyngor cyntaf yng Nghymru i ystyried sut y mae'n gweithio gyda phartneriaid i gefnogi cymunedau gwledig. Roedd yr adroddiad yn dilyn darn helaeth o waith gan dasglu trawsbleidiol a oedd yn cynnwys cyfraniadau gan lawer o bartneriaid y BGC ac ymgynghoriad â phreswylwyr a rhanddeiliaid i gael gwybod am anghenion cymunedau gwledig. Mae trafodaethau'n cael eu cynnal gan y BGC ynghylch argymhellion lle ceir cyfleoedd i bartneriaid gydweithio i gefnogi'r agenda hwn. Mae'r rhain yn cynnwys datblygu economaidd, addysg a sgiliau, band eang a sgiliau digidol, twristiaeth, trafnidiaeth a phriffyrdd, amaethyddiaeth a bwyd, cydnerthedd cymunedol, mynediad at wasanaethau a'r trydydd sector, ynni adnewyddadwy a'r amgylchedd a gwastraff. Cynhaliwyd gweithdy penodol ar gyfer partneriaid y BGC ynghylch y rhaglen 10 Tref Wledig ym mis Ionawr 2020 ac roedd partneriaid yn awyddus i ymgysylltu wrth i'r rhaglen ddatblygu.



Mae aelodau'r BGC yn nodi cyfleoedd cydweithio i gefnogi a datblygu ymhellach y gwaith parhaus gyda phartneriaid a'r gymuned i adfywio ward Tŷ-isa yn Llanelli. Mae'r ward hon yn un o'r cymunedau mwyaf difreintiedig yn Sir Gaerfyrddin ac mae partneriaid yn llunio cynllun trawsnewidiol i geisio mynd i'r afael â'r amddifadedd hwn drwy fynd i'r afael â materion allweddol sy'n effeithio ar y gymuned. Bydd y gwaith hwn hefyd yn cysylltu â datblygiad mentrau eraill a gynllunnir yn yr ardal megis datblygiad y Pentref Gwyddor Bywyd a Llesiant ac adfywio canol y dref. Bu grŵp llywio amlasiantaeth yn cydgysylltu ymarfer ymgysylltu â'r gymuned yn 2018 i ganfod barn preswylwyr a rhanddeiliaid cymunedol er mwyn llywio cynlluniau ar gyfer y dyfodol. Nododd y broses ymgysylltu flaenoriaethau clir a'r angen i fynd i'r afael â phryderon ynghylch diogelwch cymunedol yn ogystal â'r amgylchedd cymdeithasol a ffisegol.



Bydd gweithdy 'Carbon Sero-net' yn cael ei drefnu. Mae trafodaethau wedi'u cynnal gan y BGC mewn perthynas â newid yn yr hinsawdd a lleihau plastig untro. Daw hyn ar ôl i'r Cyngor ddatgan Argyfwng Hinsawdd ym mis Chwefror 2019, sy'n ymrwymo i wneud y Cyngor yn awdurdod lleol carbon sero-net erbyn 2030 ac i weithio gyda'r BGC i ddatblygu cyfleoedd ar gyfer cyflawni arbedion carbon. Mae cynnwys y bartneriaeth a chatau posibl gan bartneriaid wedi'u hystyried yn gychwynnol. Bydd y gweithdy yn amlinellu gweithgarwch presennol ac arfaethedig yn eu sefydliadau i ymateb i newid yn yr hinsawdd ac i nodi unrhyw gyfleoedd ar gyfer cydweithio ar draws partneriaid y BGC. Bydd gan y grŵp Amgylchedd lach rôl yn mynd â'r gwaith hwn yn ei flaen mewn partneriaeth.

Prosiectau ychwanegol a ddatblygwyd gan y Grwpiau Gweithredu



Un o flaenoriaethau'r **Grŵp Gweithredu Amgylchedd Iach** yw mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd a chomisiynwyd rhywfaint o waith rhanbarthol ar

ddigwyddiadau tywydd garw gan CNC, gan weithio'n agos gyda'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn Sir Gaerfyrddin, Ceredigion a Sir Benfro.

Ym mis Chwefror 2019, dechreuwyd ar y gwaith o gasglu data ac mae digwyddiad peilot i ymgysylltu â'r cyhoedd wedi'i gynnal i ganfod barn y cyhoedd ynghylch peryglon newid yn yr hinsawdd a'r opsiynau posibl i addasu a lliniaru. Ar ôl i'r prosiect ddod i ben, nodwyd bod angen dull gweithredu mwy penodol ac mae gwaith yn cael ei wneud i ymgysylltu â dau o'r cymunedau sydd mewn perygl a nodwyd gan y prosiect ar lefel fwy manwl - Castellnewydd Emlyn yn Sir Gaerfyrddin ac Abergwaun yn Sir Benfro. Comisiynwyd gwaith ym mis Chwefror 2020 i gyflawni'r dull penodol hwn, gan ganolbwyntio ar feithrin cydnherthedd yn y cymunedau hyn er mwyn paratoi ar gyfer effeithiau newid yn yr hinsawdd. Bydd y prosiect yn cynnwys gwaith manwl yn ymgysylltu â rhanddeiliaid i lunio cynllun ar gyfer meithrin gwytnwch yn yr hinsawdd drwy nodi effaith unionyrchol y risgiau hinsawdd ar eu sefyllfa a'u lle a gofyn am eu hymatebion ar sut i feithrin gwytnwch. Bydd adroddiad wedyn yn amlinellu canfyddiadau'r prosiect ac yn gwneud argymhellion, gan

ganolbwyntio'n benodol ar ganlyniadau ac atebion, ac amlinellu llwybr ar gyfer dilyniant.

Cynlluniwyd y gwaith ymgysylltu ar gyfer mis Mawrth/dechrau mis Ebrill 2020, gyda'r adroddiad yn cael ei gyhoeddi ym mis Ebrill. Yn anffodus, oherwydd y pandemig coronafeirws, nid oedd modd cadw at yr amserlenni gwreiddiol ar gyfer y prosiect ac mae'r grŵp yn ystyried y dull o ymgysylltu â rhanddeiliaid drwy ddefnyddio cyfleoedd ar-lein gan gynnwys cyfarfodydd a gweminarau.



Mae'r **Grŵp Gweithredu Cysylltiadau Cadarn** wedi gwneud gwaith ym meysydd gwirfoddoli ac asedau a ddelir gan bartneriaid ledled y rhanbarth. O ran gwirfoddoli, cwblhawyd ymarfer mapio gyda

phartneriaid i ddeall dulliau presennol yn well a chynhaliwyd gweithdy ym mis Ebrill 2019 i drafod y canfyddiadau. Sefydlwyd gweithgor i edrych ar sut y gallai partneriaid gydweithio mewn nifer o feysydd gan gynnwys y defnydd presennol o wirfoddolwyr, recriwtio, polisïau gwirfoddoli a gwirfoddoli gan staff. Mae'r mentrau sy'n cael eu datblygu yn cynnwys:volunteering. Initiatives being progressed include:

- Hwb Gwybodaeth ar-lein i alluogi rhannu gwybodaeth, arferion da, cyfuno adnoddau a dogfennau a datblygu polisïau.
- Marc i gydnabod bod sefydliadau lleol yn croesawu gwirfoddolwyr er mwyn hyrwyddo arferion da. Mae meini prawf ar gyfer y safon ansawdd yn cael eu llunio.
- Cynyddu nifer y cyfleoedd gwirfoddoli sy'n arwain at gyflogaeth. Mae un partner y BGC yn caniatáu i'w wirfoddolwyr wneud cais am swyddi gwag sydd ond ar gael i ymgeiswyr mewnol. Ystyrir bod hyn yn arfer da o ran annog gwirfoddoli. Mae cysylltiadau wedi'u gwneud ar hyn gyda'r Grŵp Gweithredu Pobl a Llefydd Llewyrchus.
- Bydd digwyddiad recriwtio ar y cyd ar gyfer gwirfoddolwyr hefyd yn hyrwyddo gwirfoddoli ac yn rhannu'r arferion gorau o ran cynnal sesiynau o'r fath.

- Digwyddiad dathlu ar y cyd i ganmol gwirfoddolwyr a diolch iddynt am y cyfraniad a wneir ganddynt.

Yn anffodus, mae'r digwyddiadau a gynlluniwyd wedi cael eu gohirio oherwydd y pandemig coronafeirws. Fodd bynnag, mae cydweithio arall wedi cael ei wneud o ganlyniad i'r pandemig. Mae'r Cyngor Sir, CAVS a chynghorau tref a chymuned wedi bod yn gweithio'n agos i gydlynu'r ymdrech wych gan wirfoddolwyr sy'n digwydd ar draws y Sir. Mae ymdrechion allweddol ar y cyd wedi cynnwys:

- Sefydlu chwe thîm ardal fel rhan o'r prif bwynt cyswllt i nodi anghenion gwirfoddoli a rhoi cymorth lle bo angen.
- Mapio'r holl grwpiau cymorth gan gynnwys y rheiny a sefydlwyd gan y gymuned a chan gynghorau tref a chymuned. Mae CAVS yn gweithio gyda nhw i roi cymorth a chefnogaeth yn eu rolau gwirfoddoli. Ceir manylion am yr holl grwpiau ar y cyfeiriadur cymorth cymunedol ar wefan y Cyngor.
- Sefydlu llwyfan ar-lein newydd - Connect2Carmarthenshire - sy'n cysylltu pobl sy'n cynnig cymorth â rheiny y mae angen cymorth arnynt, fel rhan o ymgyrch SirGâredig i rannu caredigrwydd Sir Gaerfyrddin.
- Cyfeirio'r 1,000 o wirfoddolwyr newydd sydd wedi cofrestru ar gynllun Gwirfoddoli Cymru CAVS at y GIG neu sefydliadau eraill sy'n chwilio am wirfoddolwyr.
- Sefydlu ar y cyd grant ymateb cymunedol i COVID i ddarparu cyllid i grwpiau sy'n darparu cymorth yn lleol.

- Mynd ati'n rhagweithiol i geisio barn y trydydd sector ynghylch eu hanghenion ar hyn o bryd ac yn y dyfodol er mwyn eu bwydo i'r cynllun adfer ar gyfer y sir.

Mae gwaith arall ar hyn o bryd ac yn y dyfodol hefyd yn cynnwys ystyried y posibilrwydd o gronfa o wirfoddolwyr i bartneriaid ei defnyddio, achredu gwirfoddolwyr a chynnal ymarfer mapio o'r mentrau cymunedau presennol, yn dilyn ystyriaeth gan y BGC o arferion da model hwb cymunedol yn Llundain.



Mae 'Adolygiad o Asedau Strategol Canolbarth a Gorllewin Cymru' wedi'i gwblhau. Ariannwyd yr adolygiad gan Lywodraeth Cymru ac fe'i comisiynwyd gan Grŵp Rhanbarthol Cydweithredu ar Asedau Canolbarth a Gorllewin Cymru, Ystadau Cymru. Mae porth data rhyngweithiol newydd wedi'i greu sy'n rhoi gwybodaeth am holl eiddo gwasanaethau cyhoeddus ledled y rhanbarth. Ceir nifer o brosiectau cydweithredol arfaethedig:

- Rhesymoli swyddfeydd traws-sirol a gweithio ystwyth yn y sector cyhoeddus
- Swyddfa a Champws Addysg Parc Dewi Sant, Caerfyrddin - rheolaeth gydweithredol o'r adeiladau a'r campysau sy'n eiddo i'r Cyngor Sir, y Bwrdd Iechyd, y Brifysgol a'r Coleg.
- Canolfannau llesiant ar draws y rhanbarth ehangach, gan gynnwys Llanelli a Cross Hands.
- Gwasanaethau symudol cyhoeddus cydgysylltiedig mewn ardaloedd gwledig
- Cyfleoedd ehangach i gydweithio ar eiddo sy'n deillio o'r ysbyty gofal brys a gofal wedi'i gynllunio arfaethedig newydd
- Cydweithio traws-sirol mewn perthynas â depos sy'n eiddo i wasanaethau cyhoeddus

Daeth yr adolygiad i'r casgliad bod angen adnoddau ychwanegol i reoli'r prosiect, er mwyn symud y prosiectau hyn yn eu blaen. Mae meysydd eraill i'w harchwilio yn y dyfodol yn cynnwys cyfleoedd yn y trefi gwledig a chanol trefi yn ogystal ag asedau sy'n eiddo i gynghorau tref a chymuned.

Yn ogystal, yn ystod y flwyddyn flaenorol cynhaliwyd prosiect i nodi eiddo sydd ar gael ar gyfer gwasanaethau gwirfoddoli. Crëwyd offeryn mapio 'Dod o hyd i leoliad' ac mae'n parhau i gael ei gynnal gan y Cyngor Sir i hwyluso mynediad at leoliadau cyfarfod ar draws y Sir gan grwpiau gwirfoddol yn arbennig.



Mae'r **Bartneriaeth Cymunedau Mwy Diogel** wedi bod yn rhan o waith llwyddiannus i fynd i'r afael â 'Llinellau Cyffuriau' gan gynnwys sesiynau briffio ac

wythnosau gweithredu wedi'u targedu. Mae Llinellau Cyffuriau yn derm a ddefnyddir ar gyfer rhwydweithiau delio cyffuriau cyfundrefnol anghyfreithlon, sy'n cael eu rheoli fel arfer gan berson sy'n defnyddio rhif ffôn - sef y 'llinell cyffuriau'. Maent yn dosbarthu cyffuriau anghyfreithlon ar draws siroedd gwledig a maestrefi drwy ddefnyddio 'rhedwyr' sy'n blant ac oedolion agored i niwed sy'n cael eu recriwtio i gludo cyffuriau ac arian parod ledled y DU. Yn aml mae'r drosedd hon yn gysylltiedig â throseddau difrifol eraill fel camfanteisio rhywiol, trais, gwyngalchu arian a masnachu pobl.

Yn dilyn y digwyddiadau briffio ynghylch Llinellau Cyffuriau a Gwrthderfysgaeth ym mis Mawrth 2019 lle'r oedd dros 200 o staff gwasanaethau cyhoeddus yn bresennol, mae cyflwyniadau wedi'u rhoi i godi

ymwybyddiaeth ymhlith oddeutu 800 o staff gwasanaethau cyhoeddus ac o sefydliadau ehangach dros y flwyddyn ddiwethaf.

Cynhaliwyd 'wythnosau dwysáu Llinellau Cyffuriau' ym mis Mai, mis Awst a mis Hydref gan yr Heddlu a bu sefydliadau partner yn ymgysylltu â chymunedau i godi ymwybyddiaeth, casglu gwybodaeth a chyfeirio defnyddwyr cyffuriau at wasanaethau cymorth. Roedd y gweithgareddau'n cynnwys cyflwyniadau i dros 300 o landlordiaid preifat am denantiaid agored i niwed a gweithrediad ar y cyd â Heddlu Trafnidiaeth Prydain ac Arriva Trains i fynd i'r afael â defnyddwyr a chyflenwyr cyffuriau sy'n teithio ar drenau i weithgarwch Llinellau Cyffuriau yn Abertawe. Roedd llwyddiannau yn ystod un o'r wythnosau hyn yn cynnwys casglu gwybodaeth, atafaelu cyffuriau, dau arestiad ar gyfer meddiant gyda'r bwriad o gyflenwi cyffuriau dosbarth A ac arestio person yr oedd yr heddlu'n chwilio amdano.

Menter arall i ddarparu mynediad at gymorth cyffuriau ac alcohol oedd y fan allgymorth, a gafodd ei threialu yn Heol yr Orsaf, Tŷ-isa yn Llanelli, i ymgysylltu â phobl leol a chyfeirio'r rheiny roedd angen mwy o gymorth arnynt gan wasanaethau. Roedd Gwasanaeth Cyffuriau ac Alcohol Dyfed (a ariennir gan y Comisiynydd Heddlu a Throseddau), gwasanaeth tai'r Cyngor, tîm 'Cymunedau am Waith' a'r gwasanaeth ieuenctid yn ogystal â gweithiwr Fearless o Crimestoppers ymhlith y partneriaid a oedd yn cynnig gwasanaethau gan gynnwys cymorth o ran

materion cyffuriau ac alcohol, cyngor am dai a chymorth i gael hyfforddiant a gwaith. Bydd dyfodol y prosiect yn cael ei ystyried ar ôl iddo gael ei werthuso ond mae adborth cychwynnol gan ddefnyddwyr y gwasanaeth a phartneriaid wedi bod yn gadarnhaol.



Mae'r **Grŵp Gweithredu Pobl a Llefydd Llewyrchus** wedi arwain ar waith mewn perthynas ag adeiladu cyfoeth cymunedol a chaffael bwyd. Bu'r BGC yn

ystyried y model adeiladu cyfoeth cymunedol, sef dull o ddatblygu economaidd lleol sy'n canolbwyntio ar bobl. Ei nod yw atal cyfoeth rhag gadael ein cymunedau, ein trefi a'n lleoedd, rheoli'r cyfoeth hwn yn nwylo pobl, cymunedau, busnesau a sefydliadau lleol. O ganlyniad, cyflwynodd y BGC gais i Lywodraeth Cymru i fod yn BGC peilot ar gyfer ei rhaglen adeiladu cyfoeth cymunedol drwy gaffael, a bydd hyn bellach yn cael ei ddatblygu yn ystod y 12 mis nesaf fel clwstwr rhanbarthol o Fyrddau Gwasanaethau

Cyhoeddus yng ngorllewin Cymru. Yn ogystal, gwnaeth y BGC gais llwyddiannus i Gronfa Her yr Economi Sylfaenol Llywodraeth Cymru i ymgymryd â phrosiect datblygu yn canolbwyntio ar gaffael bwyd yn y sector cyhoeddus. Bydd y prosiect hwn, a arweinir gan y Grŵp Gweithredu Pobl a Llefydd Llewyrchus, yn ystyried trefniadau caffael sefydliadau sy'n aelodau o'r BGC sy'n cyflenwi ein hysgolion, ein cartrefi gofal, a'n ffreuturau staff a myfyrwyr, gyda'r nod o ddatblygu methodoleg newydd sy'n gallu cefnogi cyfoeth a gwerth economaidd lleol wrth ddatblygu'r gadwyn cyflenwi bwyd leol hefyd. Er bod y prosiect yn canolbwyntio ar y sector bwyd, gellid ei drosglwyddo i sectorau eraill ac felly byddai'n dod yn beilot ar gyfer y pecyn cymorth adeiladu cyfoeth cymunedol, gan ategu'r prosiect Economi Sylfaenol i gyflawni newid diwylliannol sylweddol o ran arferion caffael sefydliadol presennol. Bydd y ddau brosiect yn cael eu datblygu yn ystod 2020-21.



Mae'r **Grŵp Ymyrraeth Gynnar ac Atal** wedi bod yn rhan o amrywiaeth o fentrau gan gynnwys Atebion Cymdeithasol a Gwyrdd ar gyfer Iechyd a System Integredig y Blynnyddoedd Cynnar. Er mwyn gwneud cynnydd i ddatblygu dull rhanbarthol o ran Atebion Cymdeithasol a Gwyrdd ar gyfer Iechyd, cynhaliwyd uwchgynhadledd ym mis Ionawr 2020 lle'r oedd 110 o gynrychiolwyr o 41 sefydliad yn bresennol. Trafodwyd cyfleoedd i ddatblygu rôl asedau cymdeithasol a gwyrdd sy'n hyrwyddo iechyd y boblogaeth a nodwyd nifer o ffrydiau gwaith. Bydd grŵp llywio yn penderfynu ar y ffordd orau o'u datblygu. Roedd y rhain yn cynnwys cefnogi staff a thwf y sector, ariannu, dod â sefydliadau at ei gilydd i gydweithio, gwerthuso, mapio'r ddarpariaeth bresennol a'r angen am rôl eiriolaeth a lobïo. Bydd fframwaith yn cael ei lunio i gwmpasu integreiddio'r gwaith comisiynu gyda ffrydiau ariannu ar y cyd, sicrwydd ansawdd, a darpariaeth ar gyfer diogelwch pawb sy'n gysylltiedig.

Llwyddodd Cyngor sir Caerfyrddin, mewn partneriaeth â Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, i sicrhau cyllid drwy'r Rhaglen Drawsnewid ac Integreiddio'r Blynnyddoedd Cynnar - Grant Cydgynhyrchu Braenaru ym mis Chwefror 2020. Nod y grant yw datblygu gwaith integredig ar draws proffesiynau a sefydliadau sy'n gweithio gyda theuluoedd yn ystod blynnyddoedd cynnar bywydau eu plant. Yn ystod 19/20, daeth arian pellach (£500k ar draws ôl troed y Bwrdd Iechyd) ar gael i greu

prosiectau peilot i ddatblygu modelau darparu i integreiddio ymhellach.

Mae Tîm Peilot y Blynnyddoedd Cynnar yn cael ei sefydlu yng Nghwm Gwendraeth sy'n integreiddio gwasanaethau'r blynnyddoedd cynnar (bydwreigiaeth, ymweliadau iechyd, therapi lleferydd ac iaith a chymorth i deuluoedd) i hwyluso'r gwaith o feithrin cydnherthedd yr unigolyn a'r gymuned. Y nod yw galluogi teuluoedd i fyw bywydau diogel, iach a boddhaus lle gallant fagu eu plant yn llwyddiannus a gwneud y gorau o'u potensial. Sicrhawyd cyllid pellach i'w ddatblygu yn ystod 2020/2021, ond mae hyn wedi'i leihau'n sylweddol i £166,666 oherwydd pandemig COVID-19, sydd wedi arwain at ffyrdd arloesol o weithio gyda theuluoedd ac ar draws gwasanaethau. Bydd hyn yn golygu mwy o ddefnydd o'r cyfryngau cymdeithasol a chysylltiadau rhithwyr.



Gweithio Rhanbarthol

Mae datblygiadau sylweddol wedi bod o ran gweithio rhanbarthol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf:

- 1 - rhwng swyddogion arweiniol y BGC o Sir Gaerfyrddin, Ceredigion a Sir Benfro
- 2 - gyda'r tri BGC a Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol Gorllewin Cymru
- 3 - cyfarfod rhanbarthol ar y cyd rhwng BGC Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Sir Benfro a Phowys a'r Byrddau Partneriaeth Ranbarthol ar gyfer Gorllewin Cymru a Phowys ym mis Mehefin 2019.

Swyddogion arweiniol y BGC

Mae'r cydweithio agos gydag arweinwyr y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ar gyfer Ceredigion a Sir Benfro wedi parhau, a chynhaliwyd cyfarfodydd rheolaidd rhwng y swyddogion yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Y prif feysydd oedd:

- Cafodd y gwaith o ddatblygu System Wybodaeth Ddigidol ranbarthol arloesol ei gomisiynu ar y cyd gan y tri BGC gan ddefnyddio cyllid rhanbarthol gan Lywodraeth Cymru a chyda chyfraniad hefyd o Gronfa Drawsnewid Gorllewin Cymru. Mae'r Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol hefyd yn rhan o'r gwaith parhaus o ddatblygu a gweithredu'r system. Llwyfan

ar-lein yw hwn i helpu i asesu llesiant, perfformiad, trefniadau adrodd a chyfleoedd ymgysylltu yn y dyfodol. Bydd yn darparu dull ymatebol ac effeithiol o fonitro ac asesu data, gan sicrhau llai o ddyblygu gwaith. Byddai'r broses o gasglu a dadansoddi'r data hwnnw yn cael ei gwella, byddai data allanol yn cael ei ychwanegu wrth iddo gael ei ddiweddarau a byddai'r holl ffynonellau data yn cael eu cadw gyda'i gilydd. Bydd partneriaid yn parhau i fwrw ymlaen â'r gwaith sydd ei angen i ddatblygu'r system ddigidol a fydd yn llywio'r gwaith paratoi ar gyfer yr asesiadau llesiant nesaf.

- Mae gwaith wedi bod yn cael ei wneud ar brosiect peilot 'Iechyd Gwyrdd a Mynediad Gorllewin Cymru' a ariennir gan Lywodraeth Cymru 'Galluogi Adnoddau Naturiol a Llesiant', o dan arweiniad Coed Lleol. Mae'r prosiect gwerth £40,000 yn dwyn ynghyd bartneriaid ar draws y tair sir er mwyn ymchwilio i'r ddarpariaeth mannau gwyrdd presennol ar gyfer cymunedau lleol, cynorthwyo darparwyr mentrau iechyd gwyrdd i hyrwyddo'r arferion gorau a gweithio'n uniongyrchol gyda'r sector iechyd, codi proffil rhagnodi cymdeithasol i 'ofal iechyd ar sail natur' a meithrin partneriaethau cryf rhwng y sector gofal iechyd a'r sector amgylcheddol. Mae cynnydd wedi'i wneud mewn nifer o feysydd:

- datblygu cymhwyster hyfforddiant craidd Lefel 3 Agored gyda Llesiant mewn Natur, ac ystyried modiwlau pellach.
- ymarfer mapio'r ddarpariaeth o goetiroedd a nododd leoliadau ar gyfer cynnal digwyddiadau ymgynghori a gynhaliwyd yn ystod mis Mawrth a mis Ebrill 2020. Yn sgil y rhain, cafodd gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol, cysylltwyr cymunedol a rhagnodwyr cymdeithasol, iechyd gwyrdd, darparwyr gweithgareddau, arweinwyr coedwigaeth cymdeithasol a chynrychiolwyr y gymuned gyfle i brofi gweithgareddau iechyd a llesiant mewn lleoliad coetir a chymryd rhan mewn gweithdai ymgynghori a thrafod.
- mae arian pellach yn cael ei geisio i barhau â'r gwaith cydweithredol hwn i gefnogi'r maes cynyddol o weithgareddau iechyd a llesiant yn yr awyr agored.



Cysylltiadau â Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol Gorllewin Cymru



- Gwahoddwyd y Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol ym mis Mawrth 2019 i ymuno â'r BGC ac mae'r Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol bellach yn eitem sefydlog ar yr agenda a ddarperir ym mhob cyfarfod y BGC. Mae'r diweddariadau hyn yn canolbwyntio'n benodol ar y meysydd lle mae cysylltiadau clir rhwng blaenoriaethau'r ddau Fwrdd ac mae trafodaethau'n cael eu cynnal i ddatblygu prosiectau ar y cyd sy'n derbyn arian o Gronfa Drawsnewid Llywodraeth Cymru sy'n cefnogi amcanion y BGC megis hyrwyddo gwirfoddoli a chymunedau cydnerth, ymgysylltu â'n cymunedau ac atebion cymdeithasol a gwyrdd ar gyfer ieuchyd. Mae cyfarfodydd rheolaidd yn parhau i gael eu cynnal rhwng arweinwyr BGC Sir Gaerfyrddin, Ceredigion a Sir Benfro gyda'r Pennaeth Cydweithredu Rhanbarthol, y swyddog arweiniol ar gyfer Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol Gorllewin Cymru er mwyn fwrw ymlaen â chydweithio.

Roedd y meysydd gwaith integredig penodol a ddatblygwyd y llynedd yn cynnwys:

1. trefniadau ar gyfer ymgysylltu â dinasyddion ar lefel ranbarthol a lleol - mae'r Bwrdd Iechyd yn cydgysylltu'r gwaith hwn i ddatblygu dull sector cyhoeddus o gynnwys ac ymgysylltu. Yn dilyn trafodaeth gyda phartneriaid y BGC ynghylch cyfleoedd cydweithredol i ymgysylltu â'n cymunedau, mae'r Bwrdd Iechyd bellach yn y broses o gomisiynu systemau digidol sy'n gallu cefnogi mwy o ymgysylltu â dinasyddion. Mae nifer o sefydliadau sy'n aelodau o'r BGC yn cymryd rhan yn y prosiect gyda'r nod o greu dull ymgysylltu cyson ar draws nifer o gyrff gwahanol yn y sector cyhoeddus.
2. datblygu'r System Wybodaeth Ddigidol fel yr amlinellir uchod.

Cyfarfod rhanbarthol Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a Byrddau Partneriaeth Ranbarthol Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Sir Benfro a Phowys

Yn dilyn y cyfarfod rhanbarthol cyntaf o Fyrdau Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Sir Benfro a Phowys ym mis Mehefin 2018, cynhaliwyd y cyfarfod blynyddol gan BGC Sir Gaerfyrddin ar 7 Mehefin 2019 a chafodd ei ymestyn i gynnwys y Byrddau Partneriaeth Ranbarthol ar gyfer Gorllewin Cymru a Phowys. Cynhaliwyd cyfres o

drafodaethau i nodi meysydd posibl ar gyfer cydweithio rhanbarthol, yn seiliedig ar gyffredinedd nodau ac amcanion a nodwyd mewn cynlluniau lleol. Nodwyd pedwar maes allweddol ar gyfer cydweithio rhanbarthol posibl:

1. Gofal trwy Gymorth Technolegol
2. Ymgysylltu parhaus
3. Atebion Cymdeithasol a Gwyrdd ar gyfer lechyd
4. Pobl Gysylltiedig, Cymunedau Caredig

Y farn gyffredinol oedd y byddai budd i'r ddwy ochr a gwerth ychwanegol i waith rhanbarthol gan y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Byrddau Partneriaeth Ranbarthol ym mhob un o'r pedwar maes hwn o ran

cynllunio a datblygu ein dulliau gweithredu strategol a allai gael eu cyflawni ar lefel leol. Mae cynnydd wedi dechrau ar ddau o'r cynigion - Ymgysylltu Parhaus ac Atebion Cymdeithasol a Gwyrdd ar gyfer lechyd, fel yr amlinellir uchod.

Rhoddwyd cyflwyniadau hefyd ar faterion allweddol cyfredol:

- dull diwygiedig o ymdrin ag anghenion dysgu ychwanegol
- Diweddariad am Gredyd Cynhwysol
- Cydweithrediad Asedau Strategol Canolbarth a Gorllewin Cymru a oedd wedi arwain at adolygiad o ystad y sector cyhoeddus, arferion gorau, nodi

blaenoriaethau a rhaglen waith ar gyfer y dyfodol.

Yn ogystal, rhoddodd y cyfarfod gyfleoedd i'r sefydliadau sy'n aelodau rwydweithio.

Bydd y cyfarfod rhanbarthol nesaf yn cael ei drefnu cyn gynted â phosibl yn dilyn adferiad o'r pandemig Coronafeirws.

Y Fargen Ddinesig

Mae'r BGC wedi cael y wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd a wnaed ac mae partneriaid yn ymgysylltu yn ôl yr angen mewn prosiectau gwahanol fel sy'n briodol.



Pum Ffordd o Weithio

Mae'r BGC wedi ymgorffori'r pum ffordd o weithio yn ei gynlluniau a'i drefniadau gweithio

Tymor Hir



Pwysigrwydd sicrhau cydbwysedd rhwng anghenion tymor byr a'r angen i ddiogelu'r gallu i ddiwallu anghenion tymor hir hefyd.

Atal



Sut gall gweithredu i atal problemau rhag digwydd neu waethygu helpu cyrff cyhoeddus i gyflawni eu hamcanion.

Integreiddio



Ystyried sut gall amcanion llesiant y corff cyhoeddus effeithio ar bob un o'r nodau llesiant, ar bob un o'u hamcanion eraill, neu ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill.

Cydweithio



Gallai cydweithredu ag unrhyw berson arall (neu wahanol adrannau yn y corff ei hun) helpu'r corff i fodloni ei amcanion llesiant.

Cynnwys Pobl



Pwysigrwydd cynnwys pobl sydd â diddordeb mewn cyflawni'r nodau llesiant, a sicrhau bod y bobl hynny'n adlewyrchu amrywiaeth yr ardal maent yn ei gwasanaethu.

Mae'r BGC wedi ymgorffori'r pum ffordd o weithio yn ei gynlluniau a'i drefniadau gweithio. Fel rhan o ddatblygiad eu cynlluniau prosiect, mae'r Grwpiau Gweithredu yn ystyried y Pum Ffordd o Weithio ym mhopeth y maent yn ei wneud, gan eu hymgorffori yn y camau gweithredu yn eu cynlluniau. Mae hyn yn amlwg yn y cynlluniau a'r adroddiadau cynnydd a ddarperir yn rheolaidd i'r BGC.

Gweithredir dull hirdymor i newid ymddygiad a diwylliant y sefydliadau a'r gymuned. Mae hyn yn amlwg mewn nifer o brosiectau fel y gwaith newid yn yr hinsawdd, Atebion Cymdeithasol a Gwyrdd ar gyfer lechyd a menter caffael bwyd. Mae amcanion hirdymor wedi cael eu nodi ar gyfer pob un o'r Amcanion Llesiant:



- **Arferion Iach** - dinasyddion Sir Gâr yn mynd ati i ymgysylltu â'u hiechyd, a chan eu bod wedi ymgysylltu'n well â byd natur, mae ganddynt lesiant gwell, lefelau straen is ac ymagweddau ac ymddygiadau mwy cynaliadwy.



- **Ymyrraeth Gynnar ac Atal** - Bydd cydweithio gwell yn y gwasanaethau'n sicrhau bod pobl yn cael y cymorth cywir ar yr adeg gywir, pan fydd ei angen arnynt. Mae'n bosibl y bydd hyn yn annog ymatebion arloesol yn lleol a ledled y sir, megis gwasanaethau symudol neu wasanaethau sydd wedi'u lleoli yn yr un lle.



- **Cysylltiadau Cadarn** - Byddwn yn dathlu Sir Gâr, a'i holl amrywiaeth, drwy hyrwyddo brogarwch, cydlyniant a goddefgarwch.



- **Pobl a Llefydd Llewyrchus** - Bydd pobl Sir Gâr yn ffynnu'n economaidd ble bynnag y maent yn byw yn y sir.

Meysydd i'w datblygu dros y flwyddyn sydd i ddod

Yn ei gyfarfod ar 14 Mai 2020, bu i bartneriaid y BGC drafod profiadau eu sefydliadau o ddelio â'r pandemig coronafeirws.



- argyfwng hinsawdd
- anghydraddoldebau iechyd - anfantais gynyddol; angen i sicrhau gwelliant o ran rhannu gwybodaeth am fod yn agored i niwed; mynediad at fannau gwyrdd ar gyfer llesiant meddyliol a chorfforol
- adeiladu rhwydweithiau cymunedol a'u datblygu ymhellach; datblygu mentrau cymdeithasol

Yn ei gyfarfod ar 14 Mai 2020, bu i bartneriaid y BGC drafod profiadau eu sefydliadau o ddelio â'r pandemig coronafeirws. Ystyriwyd pwyntiau dysgu a chynlluniau adfer, a chytunodd y partneriaid fod angen iddynt fod yn feiddgar ac yn hyderus wrth ailosod pa wasanaethau a ddarperir a sut. Gellir dysgu gwersi o'r hyn y mae sefydliadau wedi'i brofi yn ystod y pandemig a sut y mae sefydliadau wedi addasu i'r heriau y maent yn eu hwynebu er mwyn gwneud i bethau ddigwydd. Ceir cyfleoedd enfawr i gydweithio i fynd i'r afael â'r hyn na fyddai'n ymddangos yn bosibl o'r blaen.

Nododd partneriaid y BGC nifer o gyfleoedd i gydweithio fel a ganlyn:

- sicrhau bod lleoliaeth yn ganolog ac yn ganolbwynt i'n cynllun adfer
- adfywio economaidd gan ganolbwyntio ar gaffael lleol ac economi gylchol
- sefydliadau ystwyth sy'n canolbwyntio ar ddarpariaeth ddigidol; hybiau aml-asiantaeth; lleihau carbon; effeithlonrwydd busnes a lleihau biwrocratiaeth
- seilwaith digidol – cysylltedd a llythrennedd sefydliadol a chymunedol
- cynllunio, datblygu ac ailhyfforddi'r gweithlu; hyrwyddo cyfleoedd gwaith ym maes iechyd a gofal cymdeithasol;

O ganlyniad, bydd Cynllun Llesiant Sir Gaerfyrddin yn cael ei adolygu a'i ailflaenoriaethu i sicrhau bod camau gweithredu yn y dyfodol yn cael eu targedu i fynd i'r afael â'r materion allweddol hyn a chefnogi adferiad y Sir.

Meysydd blaenoriaeth eraill i'w datblygu:

- Pwyso a mesur blaenoriaethau'r BGC o ganlyniad i COVID-19 a chyhoeddi 'Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol 2020' i sicrhau bod ein gwaith yn mynd i'r afael â'r materion allweddol sy'n wynebu'r Sir.
- Integreiddio ymhellach waith y BGC a'r Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol gyda gwaith cydweithredol i resymoli'r trefniadau cyflawni a gwneud y mwyaf o'r cyfleoedd i weithredu'r ddau Gynllun.
- Datblygu gwefan a dulliau cyfathrebu'r BGC i godi ymwybyddiaeth ymysg ein cymunedau o'r gwaith partneriaeth sy'n cael ei wneud a'r camau sy'n cael eu cymryd.
- Paratoi'r asesiad llesiant nesaf, gyda chymorth y system wybodaeth ddigidol newydd.

